*Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 374 (Cy. 42)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2014

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *20 Chwefror 2014* |
| *Yn dod i rym* | - - | *21 Chwefror 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 13(2) a 45(5) o Ddeddf Tai 1988(**1**) ac a freiniwyd(**2**) bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Chwefror 2014.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru.

### Diwygio Ffurflenni Rhagnodedig

**2.** Yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997 (Ffurflenni a ragnodir at ddibenion Rhan I o Ddeddf Tai 1988)(**3**)—

(a) ym mharagraff 2 o'r Canllawiau i Ffurflen 4D (hysbysiad landlord yn cynnig rhent newyddo dan denantiaeth gyfnodol sicr o dir ac adeiladau a leolir yng Nghymru )(**4**) hepgorer o "You should also notify" i "claiming benefit" a rhodder—

(**1**) 1988 p. 50. I gael diffiniad o "prescribed", *gweler* adran 45(1). Ar gyfer darpariaeth ynghylch meddianaethau amaethyddol, *gweler* adran 24.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13, i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru (Trosgwlyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1997/194.

(**4**) Mewnosodwyd ffurflen 4D gan O.S. 2003/307 (Cy. 46).

"You are required to also notify the Housing Benefit office in your local authority if you are claiming a Benefit or the Department for Work and Pensions if you are claiming Universal Credit. The Gov.UK website provides further advice: https://www.gov.uk"; a

(b) ym mharagraff 2 o'r Canllawiau i Ffurflen 4E (hysbysiad landlord neutrwyddedydd yn cynnig rhent newydd neu ffi drwydded o dan feddiannaeth amaethyddol sicr o dir ac adeiladau a leolir yng Nghymru )(**5**) hepgorer o "You should also notify" i "claiming benefit" a rhodder—

"You are required to also notify the Housing Benefit office in your local authority if you are claiming a Benefit or the Department for Work and Pensions if you are claiming Universal Credit. The Gov.uk website provides further advice: https://www.gov.uk".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

20 Chwefror 2014

(**5**) Mewnosodwyd ffurflen 4E gan O.S. 2003/307 (Cy. 46).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau )*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ffurflenni penodol a ragnodir yn Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997(**6**), fel y'u diwygiwyd(**7**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) ac yn mewnosod cyfeiriadau yn y ffurflenni hynny at gredyd cynhwysol.

(**6**) O.S. 1997/194.
(**7**) *Gweler*O.S. 2003/307 (Cy. 46).